

Geiriau / Lyrics

Pob cân gan Gai Toms heblaw am 11, 14 a 15
All songs by Gai Toms except 11, 14 & 15.

1.Y Ty

Dewch i mewn o'r tarannau a'r glaw,
Mae digon o gaws a gwîn coch.
Strepsils yn canu a'i het ar ei frest,
A Sian efo'i fest ar ei phen.

Mae'r fframia yn gam, mae na chŵd yn y pram,
Diolch Dduw bo nhw'n gwarchod y plant.
Draw yn y gegin ma nhw'n berwi lobscows,
Ond ni welaf run scali'n un man.

Peidiwch gofyn i mi dwi'm yn feistr y tŷ,
Dwi meddwl fod o yn y Med.
Ei wraig o yn fancw a'i choesa rownd dyn,
A gorriad y tŷ yn ei chwmm.

Mae'r techno yn uchel gwin coch ar y wal,
Mae halen yn brin yn y tŷ.
Bobol drws nesa mor fyddar a grat,
Ond cwyno am 'raffitti y dre.

**Pwy ydi'r jocar? Mae'r gwin ma'n mynd yn gryfach.
Pwy ydi'r hystlar? Ydi'r gwrrachod ma'n wyn ta yn ddu?
Yn y Tŷ.**

Mae'n rhaid i mi adael mae'n rhaid i mi fynd,
Mae'r tŷ ma fel syrcaes fel ffair.
Y bannister druan fel matches heb focs,
A Ben efo'i socs yn ei geg.

Mae'n brigo tu allan, mae'n oer yn y Llan,
Y gwrrachod wedi galw y niwl.
Does gen i ddim llwybr does gen i ddim ffordd,
Dwi'n oer ac yn wlyb ar y rhiw.

2. Robin Pantcoch.

Pwy sy'n cerdded yn araf bach i fyny'r ffordd,
I dafarn clyd ar droed Nyth y Gigfran.
Ei ffon yn ei law, dan haul mor braf neu dan trwmder y glaw,
Yn gwisgo'i hen het drilbi ar ei ben.

Wisgi's bach a hanneri mild drwy y nos,
Efallai ambell woodbine gan ei gyfaill.
Mor ddiniwed ei wedd, drwy hynt a helynt 'steddai yn ei sedd,
Yn gwisgo'i hen het drilbi ar ei ben.

**Geiriau difyr a hen ffasiwn daw o'i ben,
Herian merchaid iau na fo dros y pren.
Mae'n cael y gorau ac yna'n pysychu'n llwyr,
Gan gochi fel y fflam sy'n llosgi'r cwyr.**

Gloch yn canu am yr ail dro mae'n amser cau,
Fe wnei ei ffordd yn araf at y drws.
Nos da Bici Bo, yr hen Bob Bach neu Robin Pantcoch,
Sy'n gwisgo'i hen het drilbi ar ei ben.

3. Gwallt Mor Ddu

O'n i'n arfer mynd ar nerfau fi fy hun,
Ddim callach lle i fynd m'ond ar y gwynt.
Rhy ifanc neu rhy swil,
Roedd heli fy nghariad yn berwi
Am y ferch a'i gwallt sy'n mor ddu.

Carcharu'n hun a gwrthod torri'r ias,
Syn myfyrio a syllu drwy fy mheint.
Ei phiws ei du ac ei glas,
Mor syml ei gwedd ond mor wych,
Y ferch a'i gwallt sy'n mor ddu.

Ei chreffftwaith mor ddisglair ac ei chwmm,
A'i dyner afon fel ei gwynab gwyn.
Ac ysbryd y llethrau emrallt,
Sy'n edrych dros y cwm sy'n llawn lliw
Fel y ferch a'i gwallt sy'n mor ddu.

Edmygais i ti ers dyddiau llo,
Holais amdanat yn y fro,
Ceisiais amdanat o do,
Ond gwell i ni fynd efo'r llif yn yr afon,
Na thynhau a chwyddo'r don x2

Ond rwan dwyt ti ddim ond ffrind,
A rhywyn i roi fy neigrin yn dy law.
Pan fo set wag, ar y bys,
A tithau angen set neu ysgwydd
Ia'r ferch a'i gwallt sy'n mor ddu.

4. Lein Ddillad

Chwarae tic sws yn y brwyn dan y lein,
Yna sgota dwylo yn y 'Stradau.
Hel coed tan a'i cynnig nhw allan,
Milgwn oedda ni yn mynd adra.

Llowcio bwyd Mam a rhoi y diems ymlaen,
Cogio fod ni'n soldiwr yn yr armi.
Stecio tren y Sais wnawn i,
A'i phledio hi a thatics kamekaze.

**Dynes home help yn taflu dillad ar y lein,
Uwchben y brwyn ar lan yr afon.
Ond rwan dim ond dillad Sais sy'n chwifio yn y gwynt,
Nid y dillad brethyn oedd yno gynt.**

Malu cachu llwyr ar y pafin du,
Y tar-mac ffresh yn gwneud ni'n high.
Plant o Birmingham a Mars yn bod yn gâs,
A ninnau'n cael y bai.

Cyfeillgar oedd yr henoed yn yr ysgol Sul,
Yn gafael yn eich llaw a phishyn deg.
Cynnnes oedd yr arian clen,
Siop 'di cau a methu llenwi ngheg.

5. Pellter

Ti yn y ddinas, a dwi'n methu chdi,
Dwi yn dre, a dwi isho chdi.
Be sy rhyngom ni di darn o dir.

Mae gen ti briffordd, i dy gludo di,
Mae genai ffordd drol, a dwi'n i cherdded hi.
Be sy rhyngom ni di darn o dir.

**Mae popeth mor gyfleus tydyo'm yn bell i'm mwy,
Ma mond yn bell pan dwi'n meddwl amdanat ti.**

Ti yn Ewrop, a ti'n sgwennu i mi,
Dwi yn y dafarn, yn meddwl drostat ti.
Be sy rhyngom ni di dwr y mor.

Mae gen ti bacpac, ar y ffordd i Prague,
Mae genai bacad baco a mae o bron yn wag.
Be sy sy rhyngom ni di dwr y mor

Pellter, sy rhwng y ser.

Mae gen ti dy oren, a ti'n ffonio fi
Mae genai vodafone, sgenai'm credit.
Be sy rhyngom ni di satellite

6. Does 'na Neb

Dwi'n sgwennu'r gan ma,
Cos ma na le i roi papurau gwag,
Ar fy ngwely gwag, yn dy le.

**Does 'na neb, does 'na neb
Sy'n gallu llenwi gofod fy mreichiau fel wyt ti.**

Anodd addasu,
Cos dwi'm yn gallu tynnu'r llun allan,
O fy walet tan, 'da ni'n siwr.

*Yr unig beth sy'n nghadw i - i fynd,
Yw dy lygaid di,
Mahogani,
Uwch dy wen, uwch dy en.*

Doedd na'm ffrae na,
So be di'r pwynt digaloni,
Mae'r holl petha da dal yn fyw.

**Does 'na neb, does 'na neb
Sy'n gallu llenwi gofod fy mreichia fel o'chdi.**

7. Tafarn yn Nolrhedyn.

Pentref bach uchel mae o'n uwch na Llan,
Lle mae dwr y mynydd yn canu i'r llyn.
Ac yn yr haf, mae nhw'n cau y dam,
Y mamau yn padlo a'r plant yn nofio.

Pentref bach distaw s'dim digon o swm,
Mae'r nytars i gyd yn neidio llyn cwn.
Ac uwch ar y creigiau mae'r dringwyr i gyd,
Efo'i rhaffau glas a'i carbinas.

**Ond be does 'na ddim, ydi tafarn yn fan hyn.
'Sa 'na dafarn yn fan hyn sa fo'n booming.
Felly be 'da ni angen ydi tafarn yn Nolrhedyn.**

'Sa'r lle ma'n gwneud pryda 'sa'r lle ma'n gwneud tan,
Hen foi yn y gornel yn canu rhyw gân.
A digon o le i'r band roi y stwff,
A chwarae miwsig i gyfeiliant y ffisig.

'Sa'r lle ma'n llawn merched ond ddim rhai rhy hen,
Yn gwenu a mwydro rhoi gwen ar bob gen.
A wedi ti fachu, ti'n gwrthod lock-in,
Mae'r lle ma rhy boeth awn ni nofio yn noeth.

8. Y Glaw Go Iawn

Hei chdi ar y gongol, be sgin ti yn dy law?
Potel aftershave dy hen ddyn?
A'r ferch na sy'n meddwl bod hi'n rhywyn,
Yn rhoi llond ceg i'r graduras,
A hithau'n cario'i bagia at y bys.

**Be chi'n feddwl 'da chi'n neud?
Mae rhywbeth gwell na hyn.
Weithiau dwi'n teimlo fel Travis Bickle,
Yn aros am y glaw go iawn.
I llanu'r budreddi, a'r trais oddiar y stryd.**

Pushers, pimps ar pervers, peadophiles a'r putz,
Ewch i le sy'n uchel a neidio i ffwrdd.
Pwy sy'n mynd i sortio'r lle ma,
Mae'n anodd meddwl pwy,
Dawnsio wnawn mewn gobaith i ddawns y glaw.

9. Clwb y Tylluanod.

Mae pawb efo'r un un galwad,
S'neb yn gwbod lle ma nhw'n mynd.
Mae nhw'n cuddio yn y cysgod tan mae'r amser yn iawn.

Mae rhai tu ol i'r walia, rhai yn y cysgod,
Mae rhai dan lechan las y doman, mae rhai yno'n barod.

**Wyt ti'n gorfod dallt hi'n iawn,
I fod yn aelod o glwb y tylluanod.
Dim y masons na'r byffs – ti jyst goro yfad.**

Mae golau glas yn pasio, i ochr draw y dre,
Mae nhw'n codi fel ysbrydion i fentro nocio'r drws.

Mae rhai yn nocio 1 – 2, rhai yn nocio 1 – 2 – 3,
Rhai yn nocio 1 – 2 – 3 – 4, mae rhai tu fewn yn clywed

**Cytgan
+ dy nhw ddim digon ryff, i fod yn aelodau,
O glwb y tylluanod.**

Mae ferch y ty yn agor, y drws lled ei llygaid,
Mae hi'n cyfri faint o fobl sy'n sefyll yn y glaw.

Mae rhai jyst yn ysu, mae rhai jyst yn gwybod,
Fod hi'n amser iawn i fynd i fewn i glwb y tylluanod.

10. 'Cos chdi ydi'r hogan ora' yn y byd.

Tisho gwbod pam, dwi'n teimlo fel hyn?
Tisho gwbod be sy'n bod?
I mi mae'n ddwfn, yn ddwfn yn fan hyn,
Dwi'n gynnig o mond atat ti.

Genai lond fy mron, a llond fy corff.
Genai lond trol i chdi.
Y teimlad hwn, mae'n deimlad fan hyn
Dwi'n deimlo mond at a ti

Cos chdi ydi'r hogan 'ora yn y byd.

Ar y we oren, neu vodafone,
Ar yr awyren neu dren
I'r Gorllewin neu'r Dwyrain pell,
Maer teimlad hwn i chdi

Ydi o'n bwys lle wti?
Ydi o'n bwys lle dwi?
Yn y de neu yn fan hyn,
A'i ben draw'r byd i ti.

Cos chdi ydi'r hogan ora yn y byd.

11. Dagrau Caled

Gai Toms a Philip Lee Jones

Braf yw cofio'n ôl,
Ar hyn pan oedd yn un.
Dagrau caled sy'n difyrru o'n pennau plyg
Llosgi'n llygadau i.

Dy lannerch oedd yn gysur i mi,
Y Lloer a'r llanw trwm.
Dagrau cales sy'n difyrru o'n pennau plyg
Llosgi'n llygadau i.

**Er mor ddisglair yw'r haul,
Gwleithder yn atal ei wrês.
Er mor ddisglair yw'r aur,
Daw'r enfys byth yn nês.**

Cofleidio yn dy freichiau,
A'i hyn sydd yn iawn?
Llifai y dagrau, sy'n galed rhyngom ni o'n dau,
Balchder cyfeillgar yn awr.

12. Chwil Sobor.

Disgyn mewn ffos, menthyg dillad,
Ffraeo efo nghariad, caru, mewn dyled, loaded
Methu cael liff – bodio.

Chwil Sobor

Gollwng y tost ochr y menyn, gollwng potel lefrith,
Godro, hud a lledrith, dim byd,
Methu dallt pam – athronyddu.

Neb yn gwrando amai ond dwin swnllyd,
Weithia dwi yn stiwpyd,
Hogan ma hi'n hyfryd, rhywiol lle tisho mynd? – Taxi.

13. Byrddau Pren.

Un ar ddeg ar fore Sul,
'Di bod ym mharti bobol teg.
Yn poeni dim am bwy na be wyt ti.

Iechyd da, fe ga i'r nesa.
Ngheg i'n sych o win coch hwyr.
Blewyn ci yn dod a ni'n ol at ein coed.

Tan cynta wedi cyna,
Ifor bach yn dod drwy'r drws,
Yn gofyn i ni "Ble yn y byd da chi di bod?"

**Gwydrau ar y pentan,
Gwair ar groen o bodhran,
Atsain drum'n'bass o gefn y tŷ,
Yn pwyso ar y byrddau pren.
Adar yn y coed yn galw'r wawr.**

*Siarad man a rhannu smoc,
Isho mynadd gwneud dim byd,
'Gwin a mwg a merchaid drwg, o ie, o ie, o ie.'*

Dwi'n cael y nesa, a dweud wrth y barman.
"Mae rhywbeth am y byrddau pren."
Yn dod a ti'n ol at dy goed.

14. Tlws yw'r Wen

*geiriau Philip Lee Jones
alaw Gai Toms + PLJ*

Swn i'n hoffi gallu hedfan fel aderyn,
Hedfan dros y byd a'i berlau man.
Gweld cenhedlau'n dechrau dawnsio,
Law yn law yn ddu neu gwyn.

Mae'r amser ar y byd maw'r yma'n brin,
Yr amser rhoddwyd inni gan ein coed.
Paid gwastraffu'r amser hyn,
Gwna hapusrwydd dim trueni.

**Paid a digaloni,
Does dim rheswm poeni.
Dysgu oddiwrth dy gamgymeriadau,
Tlws yw'r wen thrist yw'r dagrau.**

Tlws yw'r wen a thrist yw'r dagrau.

Dewch at eich gilydd u gyd mewn llw,
Peidiwch bwydo ar feddylfryd du.
Mae na heddwch ym mywyd pawb,
Tydy o'm bwys os wyt ti yn dlawd.

Pawb yn gyfartal does neb yn well na neb,
Beth bynnag dy liw mae'r dannedd i gyd yn wyn.
Felly taflwch wen i'n cyfeiriad ni,
Tydy o'n costio dim fel can y dryw.

15. Olwyn Fawr.

Philip Lee Jones.

Chwilio am gysur,
Ond ti'n edrych rhy brysyr.
'Di colli cysylltiad ar byd tu allan.

Fe ddoist i fy mreuddwyd,
Pan oeddwn yn cysgu,
Chdi di'r athro a fi sy'n dysgu.

Mae'r olwyn fawr yn dal i droi,

Cael hyd i'r gyfrinach,
Sy tu fewn i ni gyd,
A'i adael o allan a gwneud efo ffydd.

Cael hyd i nghariad,
O waelod fy nghalon.
Mae bywyd yn llifo drwy amser fel afon.